Gwasanaethau Parcio
Adroddiad Blynyddol
2009 – 2010

Partneriaeth Prosesu Costau Cymru
Wales Penalty Processing Partnership

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Cynnwys

Rhagair yr Aelod	2
Cyflwyniad	3
Gwasanaeth Parcio'r Cyngor	4
Deddf Rheoli Traffig 2004 a Gorfodi Rheolau Parcio Sifil	6
Polisi Parcio	8
Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru	9
Proses Weinyddu Rhybuddion Talu Cosb	10
Gwasanaethu Cwsmeriaid	13
Yr Agwedd at Orfodi a Swyddogion Gorfodi Sifil	14
Cynlluniau Parcio Trigolion	16
Gorfodi Ger Ysgolion	17
Gorfodi Rheolau Bathodyn Glas	18
Datblygiadau 2009 – 2010	20
Cyfrifon Ariannol	21
Ystadegau a Pherfformiad	23
Datblygiadau i Ddod	25
Diweddglo	26
Atodiadau	27

Rhagair yr Aelod

Rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2009 – 2010 Gwasanaethau Parcio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Dyma'r ail Adroddiad Blynyddol a gyhoeddwyd gennym fel Cyngor, yn unol â gofynion Deddf Rheoli Traffig 2004.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr heriau a wynebodd y Cyngor wrth geisio rheoli parcio ar hyd a lled Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Gyda Chanol y Dref yn datblygu, erbyn hyn yn cael ei chyfrif yn drydydd yng Nghymru fel cyrchfan siopa atyniadol, Bwrdeistref gyda threftadaeth ddiwydiannol ac etifeddiaeth ddiwylliannol gyfoethog, a wellwyd yn ddiweddar trwy gael Statws Treftadaeth y Byd i Bont Ddŵr Pontcysyllte a'r Gamlas, mae heriau sylweddol wrth reoli'r rhwydwaith priffyrdd yn effeithiol ac yn ddiogel.

Mae'r galw am barcio ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, yn enwedig yng Nghanol Tref Wrecsam, ymhell uwchlaw'r cyflenwad sydd ar gael ar ymyl y ffordd ac mae'r Cyngor yn ceisio cynnal cydbwysedd egnïol rhwng y gwahanol alwadau – gan drigolion a'u hymwelwyr, busnesau a'u cyflenwadau a chwsmeriaid, ochr yn ochr â darpariaeth addas ar gyfer pobl anabl sy'n defnyddio'r Cynllun Bathodyn Glas. Mae angen cydbwyso hyn hefyd gyda'r ddyletswydd ar y Cyngor i weld bod traffig yn dal i symud, osgoi parcio peryglus a rhwystrol, a sicrhau bod mynediad da i gerddwyr, beicwyr, bysiau a cherbydau o bob math.

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion ynghylch gwasanaeth parcio'r Cyngor ei hun, beth yw Gorfodi Rheolau Parcio Sifil a sut mae'r Cyngor yn gweithredu ei drefn weinyddu a'i ddulliau gweithredu. Yn ogystal, mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu rhai o'r agweddau llai amlwg ar waith y gwasanaethau parcio fel gorfodi rheolau bathodynnau glas yn benodol a gorfodaeth mewn ysgolion.

Mae'r Cyngor yn croesawu'r cyfle i allu cyflwyno gwybodaeth eglur sy'n helpu hysbysu'r cyhoedd ac ymwneud â'n rhanddeiliaid ar amrywiaeth eang o faterion parcio.

Felly, mae'n rhoi pleser mawr i mi gyflwyno'r adroddiad hwn, gan ddisgwyl y bydd Gorfodi Rheolau Parcio Sifil a gwasanaeth parcio'r Cyngor yn dal i ddod â buddiannau cadarnhaol i Fwrdeistref Sirol Wrecsam heddiw ac i'r dyfodol.

Diolch i chi am gymryd yr amser i ddarllen ein hail Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Parcio.

Y Cynghorydd David A Bithell

Aelod Arweiniol ar yr Amgylchedd a Chludiant

Cyflwyniad

Dechreuodd un o'r chwyldroadau cludiant mwyaf gyda dyfodiad y car modur yn 1885. Yn ei ddyddiau cynnar, braint y cyfoethog oedd moduro ond, wrth i geir ddod yn fwy fforddiadwy ac ar gael yn rhwydd, felly y dechreuodd carwriaeth y cyhoedd â'r car. Dros y degawdau, cynyddodd perchenogaeth ceir i dros 31 miliwn cerbyd ar y ffyrdd heddiw. Mae rheoli'r galwadau sy'n dod yn sgil cymaint o draffig yn her. Dyna pam fod rheoliadau a chyfyngiadau ar barcio'n chwarae rhan bwysig yn strategaeth gludiant y Cyngor trwy reoli faint o draffig sydd yn y Fwrdeistref Sirol ac annog defnyddio cludiant cyhoeddus.

Yn aml mae'r galw am barcio'n fwy na'r lle sydd ar gael ar ymyl y ffordd ac mae'r Cyngor yn ceisio cynnal cydbwysedd rhwng y gwahanol alwadau - gan drigolion, busnesau ac ymwelwyr, wrth sicrhau bod mynediad da ar gyfer cerddwyr, beicwyr, bysiau a cherbydau eraill. Ein polisi cyffredinol yw darparu'r nifer mwyaf o fannau parcio ceir wrth ganiatáu symudiad boddhaol a diogel traffig a chynnal amgylchedd preswyl o safon.

Dyma ail adroddiad parcio blynyddol y Cyngor sy'n anelu at hysbysu sut mae'r Cyngor yn cyflenwi ei wasanaethau parcio, yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch sut gaiff rheolau parcio eu gorfodi ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, yn dangos yn eglur pam fod cyfyngiadau ar barcio'n bodoli a'r hyn y mae'r cyfyngiadau hynny'n ceisio ei gyflawni.

Wrth i'r gwasanaeth parcio ddatblygu, y gobaith yw y bydd yr adroddiad blynyddol yn dangos gwelliannau amlwg mewn rheoli traffig a diogelwch ffyrdd yn y Fwrdeistref Sirol o flwyddyn i flwyddyn ac yn dal i ddangos bod y Cyngor yn darparu gwasanaeth parcio proffesiynol ac o safon.

Gwasanaeth Parcio'r Cyngor

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn darparu dros 1300 o fannau parcio talu a dangos, gyda 70 ohonynt yn cael eu neilltuo i ddeiliaid Bathodyn Glas, mewn meysydd parcio oddi ar y stryd yng Nghanol Tref Wrecsam a 600 o fannau parcio am ddim mewn meysydd parcio gwledig ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol.

Rhannwyd meysydd parcio canol y dref at ddefnydd arhosiad byr ac arhosiad hir. Mae'r rhai agosaf at y ganolfan siopa'n darparu parcio byr-aros yn bennaf (hyd at uchafswm o 3 awr) gyda'r prisiau'n adlewyrchu hyn. Caiff modurwyr sy'n dymuno aros am gyfnodau hwy eu hannog i ddefnyddio meysydd parcio hir-aros lle mae'r prisiau am aros dros 3 awr yn is fel arfer.

Caiff y prisiau "Talu a Dangos" priodol eu harddangos ar y byrddau prisiau ymhob maes parcio. Ym mis Mawrth 2009 gosodwyd o leiaf ddau beiriant talu a dangos Metric Aura ymhob maes parcio. Maent i gyd yn cydymffurfio â gofynion Deddf Anffafrio'r Anabl (DDA), yn cynnig dewis Cymraeg, yn rhwydweithio'n llawn ac yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf. Mae'r peiriannau'n derbyn darnau arian 5c, 10c, 20c, 50c, £1 a £2 ond nid yw'r peiriannau'n rhoi newid.

Mae tocynnau tymor ar gael a gallant fod ychydig yn rhatach na'r gyfradd ddyddiol i ddefnyddwyr rheolaidd y meysydd parcio. Mae hefyd yn golygu bod defnyddwyr rheolaidd yn gallu osgoi gorfod bod â newid i brynu tocynnau talu a dangos.

Yn ogystal â'r meysydd parcio oddi ar y stryd, mae "Cilfachau Aros Cyfyngedig" ar y stryd ym mhob rhan o ardal yr awdurdod er mwyn darparu parcio byrdymor ychwanegol. Mae'r cilfachau aros cyfyngedig yn cael eu dangos gan farciau cilfach ac arwyddion sy'n dangos yr amser hwyaf y cewch barcio yn y gilfach. Mae'r cyfyngiadau aros cyfyngedig yn cynyddu'r lle sydd ar gael i gwsmeriaid ac ymwelwyr â siopau a busnesau yn y cylch ac yn caniatáu llwytho a dadlwytho nwyddau trwm a dibenion eraill.

Er mwyn ateb galwadau gweithredol y gwasanaeth hwn, caiff staff o 9 eu cyflogi (3 yn y swyddfa a 6 Swyddog Gorfodi Sifil). Bydd y Swyddogion Gorfodi Sifil (CEO) yn goruchwylio'r holl gyfyngiadau ymhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol ar hap ond yn rheolaidd i sicrhau bod y cyfyngiadau ar barcio'n cael eu cadw. Mae patrôl symudol ar gael i ymweld â'r mannau gwledig ac ymateb yn effeithiol i hysbysiadau o barcio anghyfreithlon ar hyd a lled y Fwrdeistref.

Mae Cyngor Wrecsam yn rhoi gwybodaeth am ei wasanaeth parcio trwy nifer o ddulliau cyfathrebu:

- Swyddogion Gorfodi Sifil a staff gweinyddol yw'r 'arbenigwyr' yn y maes hwn a gallant roi cyngor ar bob agwedd ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.
- Rhif ffôn (01978 292042) a chyfeiriad e-bost (parking@wrexham.gov.uk) cyhoeddus. Mae aelod o'r staff yn gofalu am y rhain o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.30am a 5.30pm.

- Tudalennau gwe unswydd yn www.wrecsam.gov.uk sy'n cynnwys gwybodaeth am docynnau tymor, cyfleusterau parcio canol y dref, sut i apelio yn erbyn RhTC ac ati. Ar y wefan mae nifer o gysylltiadau hefyd â gwefannau perthnasol eraill fel Cymdeithas Barcio Prydain, PATROL a'r Adran Drafnidiaeth.
- Cynhyrchu cyhoeddiadau a thaflenni amrywiol sy'n manylu ar y gwasanaeth parcio, meysydd parcio canol y dref a lle gall y cyhoedd barcio os ydynt yn dal bathodyn glas. Mae'r cyhoeddiadau hyn ar gael hefyd ar ffurfiau hygyrch eraill fel print bras neu gasét sain ar gais.
- Byrddau prisiau ymhob maes parcio sy'n manylu prisiau, oriau codi tâl, manylion cysylltu a hysbysiadau perthnasol eraill mewn meysydd parcio unigol.
- Erthyglau a datganiadau i'r wasg ynghylch cynlluniau penodol.

Mae'n bwysig iawn bod gwybodaeth ddiweddar a chywir ar gael i'r cyhoedd ynghylch gwasanaeth parcio'r Cyngor gan fod hyn yn sicrhau eu bod yn gallu gwneud dewisiadau parcio cytbwys.

Mae'r gwasanaethau parcio'n croesawu unrhyw ymateb ar unrhyw agwedd ar ei wasanaeth ac yn barod iawn i ateb unrhyw ymholiadau penodol sydd gan y cyhoedd.

Deddf Rheoli Traffig 2004 a Gorfodi Rheolau Parcio Sifil

Ar 31 Mawrth 2008, daeth Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig (TMA) 2004 i rym gan ddisodli Deddf Traffig y Ffyrdd (RTA) 1991 fel prif ddeddfwriaeth gorfodi rheolau parcio yng Nghymru a Lloegr.

Cyflwynodd y Ddeddf y newidiadau canlynol i wasanaethau parcio Bwrdeistref Sirol Wrecsam:

- Daeth Gorfodi Rheolau Parcio Dad-droseddoledig (DPE) yn Orfodi Rheolau Parcio Sifil (CPE);
- Daeth Gofalwyr Parcio (PA) yn Swyddogion Gorfodi Sifil (CEO);
- Gallu rhoi Rhybudd Talu Cosb (RhTC) ar gerbyd a barciwyd ar groesfan cerddwyr;
- Disodli holl RhTC oedd yn £60 (£30 o'u talu o fewn 14 diwrnod) am bob math o doriad gyda'r canlynol:
    - Cyfradd uwch o £70 (£35 o'i dalu o fewn 14 diwrnod), am droseddau mwy difrifol fel parcio mewn safle bysiau neu mewn cilfach barcio benodedig i'r anabl heb hawl i wneud hynny.
    - Cyfradd is o £50 (£25 o'i dalu o fewn 14 diwrnod) am droseddau llai difrifol fel aros yn rhy hir mewn maes parcio talu a dangos;
- Rhaid i'r Cyngor ymateb i 'sylwadau ffurfiol' o fewn 56 diwrnod a heriau o fewn 14 diwrnod;
- Daeth y Gwasanaeth Dyfarnu Parcio Cenedlaethol (NPAS) yn Dribiwnlys Cosbau Traffig (TPT).

Newidiodd y Ddeddf hefyd sut mae rhoi RhTC. Dan Ddeddf Rheoli Traffig, os yw RhTC wrthi'n cael ei roi pan gaiff cerbyd ei yrru i ffwrdd neu os yw'r CEO yn cael ei atal rhag rhoi'r RhTC am unrhyw reswm, mae modd ei anfon wedyn drwy'r post at y modurwr.

Yn y dyfodol, mae Swyddogion Gorfodi Sifil yn debygol o roi RhTC am barcio dwbl a pharcio o flaen cyrbau isel. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cadarnhau'r math o arwyddion sy'n ofynnol (os o gwbl) ar gyfer y toriadau hyn maes o law fel bod y Cyngor, ynghyd ag awdurdodau lleol eraill sydd â phwerau CPE, yn gallu gorfodi'r toriadau hyn.

Cymrodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bwerau Gorfodi Rheolau Parcio Sifil (CPE) ar 1 Mawrth 2008. Cyn hynny, gallai tocyn parcio gael ei roi gan Ofalwr Parcio yn un o feysydd parcio'r Cyngor gyda'r Cyngor yn cadw'r incwm a gynhyrchwyd o'r tocynnau parcio. Neu gallai Swyddog Heddlu neu Warden Traffig roi tocyn am barcio'n groes i gyfyngiadau parcio ar y stryd fel llinellau melyn dwbl, oedd yn drosedd, gyda'r arian a godwyd o'r dirwyon hyn yn mynd i'r Trysorlys yn Llundain. Nid oedd yn mynd i'n heddlu lleol nac yn cael ei gadw yn ein hardal ein hunain. Os na thalwyd y ddirwy, roedd adennill yr arian trwy'r Llysoedd Ynadon a gellid arnodi trwydded y gyrrwr hefyd.

Dan CPE, daeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gyfrifol am orfodi mwyafrif y cyfyngiadau ar aros, llwytho a pharcio ar y stryd ymhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol. Dan y drefn hon nid yw tramgwyddau o'r fath yn droseddau mwyach ond cânt eu dosbarthu fel toriadau sifil erbyn hyn. Maent yn dal yn ddifrifol, fodd bynnag, a byddant yn cael eu trin felly.

Mater pwysig i'w egluro yw pam fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cymryd y pwerau gorfodi rheolau parcio hyn o ddwylo'r Heddlu. Y prif reswm i'w ddeall yw bod blaenoriaethau plismona'n newid a'r amser oedd gan yr heddlu i ganolbwyntio ar orfodi rheolau parcio'n lleihau. Felly, gyda chefnogaeth lawn yr Heddlu y gwnaeth Cyngor Wrecsam gais i Lywodraeth Cymru am y pwerau gorfodi rheolau parcio sifil.

Ar waethaf awgrymiadau yn y cyfryngau, nid mater o godi arian i'r Cyngor yw CPE. Mae nifer o resymau dros orfodi rheolau parcio, y cyfan ohonynt o fantais i bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Fwrdeistref Sirol ac yn ymweld â hi. Mae gorfodi rheolau parcio'n gwneud y canlynol:

- Annog parcio diogel a chall;
- Gwella diogelwch cerddwyr a gyrwyr;
- Gwella llif cyffredinol traffig a rheoleiddio amseroedd teithio drwy'r Fwrdeistref Sirol;
- Lleihau perygl rhwystro llwybrau cerbydau argyfwng a gwasanaeth cyhoeddus;
- Gwella'r amgylchedd cyffredinol trwy leihau difrod i balmentydd a lleiniau glas;
- Rhyddhau'r Heddlu i ganolbwyntio eu hadnoddau ar faterion sy'n cael eu hystyried gan y cyhoedd fel eu cyfrifoldeb mwy uniongyrchol.

Yn absenoldeb mesurau rheoli'r galw'n ddidrugaredd, fel codi tâl am dagfeydd, caiff rheoli parcio ei ystyried yn ddull fforddiadwy ac effeithiol o gyflawni amrywiaeth eang o amcanion cludiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Ar y cyd â chyfundrefn effeithiol o orfodi rheolau parcio, argaeledd a fforddiadwyedd nodwyd bod gan barcio ar ac oddi ar y stryd ran sylweddol i'w chwarae nid yn unig wrth roi sylw i faterion rheoli'r rhwydwaith presennol, ond hefyd wrth gyrraedd uchelgeisiau cludiant Wrecsam at y dyfodol.

Fel rhan o agwedd gyfannol at barcio a rheoli'r rhwydwaith, bydd canolbwynt datblygu polisi yn y dyfodol yn cynnwys dewisiadau i ddarparu ar gyfer:

- agwedd fwy hyblyg ac ymatebol at reoli a gweithredu meysydd parcio oddi ar y stryd yng Nghanol Tref Wrecsam;
- lledaenu gwybodaeth gywir am feysydd parcio trwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu deallus arloesol;
- edrych ar ardaloedd cyfan wrth reoli parcio cymudwyr mewn cylchoedd preswyl.

Sefydlwyd Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru (WPPP) i weinyddu Rhybuddion Talu Cosb (RhTC) ar ran yr awdurdodau lleol hynny sy'n Gorfodi Rheolau Parcio Sifil. Ar hyn o bryd mae WPPP yn cynnwys pedwar awdurdod lleol:

- Cyngor Sir Ddinbych;
- Cyngor Gwynedd;
- Cyngor Sir Ynys Môn;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Aeth y pedwar awdurdod i'r Bartneriaeth i gael y manteision canlynol:

- Arbedion maint wrth brosesu RhTC;
- Llai o gostau cyffredinol wrth ganoli staff a swyddfa;
- Gwell grym prynu wrth gaffael meddalwedd a chefnogaeth ar y cyd ar gyfer prosesu rhybuddion;
- Cymhwyso arferion cysylltiedig â gorfodi rheolau parcio'n gyson ar hyd a lled y Gogledd;
- Gweithredu systemau a throsglwyddo gwybodaeth gysylltiedig â'r swyddogaethau gorfodi'n well;
- Gwell cynhyrchiant a pherfformiad staff.

Yn ogystal â'r buddiannau dechreuol, sefydlwyd gweithgor swyddogion gyda chynrychiolwyr o bob Awdurdod partner sy'n cyfarfod bob chwarter i drafod cysondeb gweithredol, rhannu arferion gorau ac ymdrechu'n barhaol i gael arbedion effeithlonrwydd ond nid ar draul rhoi gwasanaeth proffesiynol o safon i'r cyhoedd.

Cafodd WPPP 'statws canmoladwy' yn 2008 – 2009, yng Nghategori Cydweithio Isranbarthol 'Gwobrau Rhagoriaeth Cymru', sy'n cael eu galw'n 'Oscars Cynghorau Cymru'. Mae 'Rhagoriaeth Cymru' yn ymwneud â chydnabod arferion da a gwelliannau a wnaed wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Mae rhagor o wybodaeth am y bartneriaeth brosesu ar y wefan www.wppp.org.uk.

Proses Weinyddu Rhybuddion Talu Cosb

Bellach mae'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi Rhybuddion Talu Cosb, Rhybuddion i Berchenogion, Rhybuddion Gwrthod a Thystysgrifau Taliad a'r wybodaeth sy'n rhaid ei chynnwys ymhob un o'r dogfennau hyn yn Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sylwadau ac Apelau) (Cymru) 2008, Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Rhybuddion Talu Cosb, Gorfodi a Dyfarnu) (Cymru) 2008 a

Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) (Rhif 2) 2008.

Bwriad yr adran hon yw cyflwyno'r broses statudol gyfan y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ei dilyn wrth weithredu ei drefn CPE. Mae gwefan PATROL www.patrol-uk.info yn darparu siart sy'n dangos y broses lawn.

Bydd Swyddogion Gorfodi Sifil yn rhoi Rhybudd Talu Cosb i unrhyw gerbyd os ydynt yn credu y cafodd ei barcio'n groes i'r cyfyngiadau parcio, llwytho a/neu aros sy'n bodoli mewn man arbennig ar y pryd.

Os ydych wedi derbyn Rhybudd Talu Cosb, gallwch naill ai ei dalu'n llawn ar unwaith a chau'r achos neu, os ydych yn teimlo na ddylai fod wedi cael ei roi, mae gennych hawl i'w herio. Gallwch wneud sylwadau ffurfiol pan fyddwch yn derbyn y Rhybudd i'r Perchennog (RhP) sy'n cael ei anfon os na thalwyd y tocyn parcio cyn pen 28 diwrnod o'r dyddiad y rhoddwyd.

Fodd bynnag, gallwch ysgrifennu a herio Rhybudd Talu Cosb yn anffurfiol cyn i chi dderbyn Rhybudd i'r Perchennog:

- Os byddwch yn ysgrifennu **o fewn** y cyfnod gostyngiad 14 diwrnod a bydd hyn yn cael ei gyfrif pan fyddwch yn cael ateb. Os na chaiff ei gytuno y dylid diddymu'r tocyn, bydd cyfnod gostyngiad pellach o 14 diwrnod yn cael ei gynnig;
- Os byddwch yn ysgrifennu **ar ôl** i'r cyfnod gostyngiad ddod i ben, byddwch yn atebol am y Gosb lawn os caiff y RhTC ei gadarnhau.

Os ydych wedi herio RhTC cyn derbyn RhP, ac nad ydym wedi cytuno y dylai gael ei ddiddymu, gallwch ddal i gyflwyno sylwadau pan fyddwch yn derbyn y RhP. "Cyflwyno sylwadau" yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio am her ffurfiol i RTC. Mae ffurflen Rhybudd i'r Perchennog yn rhestru ar ba sail y gallwch herio.

Os byddwch eisiau dal i herio'ch RhTC, mae'n bwysig eich bod yn llenwi eich ffurflen sylwadau pan fyddwch yn ei derbyn, a'i dychwelyd yn brydlon. Os na fyddwch yn gwneud hyn, byddwch yn colli eich cyfle i gyfeirio'r achos i'r Dyfarnwr Annibynnol (Tribiwnlys Cosbau Traffig). Byddwn yn ymateb i'ch sylwadau naill ai trwy ddiddymu'r RhTC neu drwy anfon llythyr atoch yn "Gwrthod Sylwadau".

Gyda'r llythyr Rhybudd Gwrthod Sylwadau bydd y Cyngor yn anfon ffurflen "Apêl" y Tribiwnlys Cosbau Traffig atoch. Gallwch naill ai wneud y taliad ar yr adeg hon neu rydych yn gorfod defnyddio'r ffurflen hon i apelio cyn pen 28 diwrnod. Os yw'n ddiweddarach na 28 diwrnod rhaid i chi esbonio pam.

Dylech benderfynu pa un o'r seiliau apelio cyfreithiol sy'n berthnasol yn eich achos chi. Caiff y rhain eu rhestru ar y ffurflen apelio ac maent yr un fath â'r rhai a restrwyd ar y Rhybudd i'r Perchennog:

Rhoddwyd y RhTC yn anghywir oherwydd un o'r canlynol:

1. Ni ddigwyddodd y toriad	Roedd yr arwyddion a'r llinellau'n anghywir Ni roddwyd y RhTC Ni ddigwyddodd y digwyddiadau honedig Roedd gan y cerbyd hawl i barcio Roedd llwytho / dadlwytho'n digwydd Roedd teithiwr yn byrddio / disgyn

	Roedd bathodyn anabl dilys yn cael ei ddangos Roedd tocyn neu ganiatâd talu a dangos dilys yn cael ei ddangos
2. Roedd y gosb yn fwy na'r swm perthnasol dan amgylchiadau'r achos	Mae hyn yn golygu bod y Cyngor wedi gofyn am fwy nag oedd ganddo hawl i'w ofyn dan y rheoliadau perthnasol
3. Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig (TRO) perthnasol yn annilys	Mae hyn yn golygu bod y TRO (gyda chefnogaeth arwyddion a llinellau) yn annilys neu anghyfreithlon
4. Bu afreoleidd-dra trefniadol gan y Cyngor	Mae hyn yn golygu bod nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â Deddf Rheoli Traffig (TMA) 2004 neu'r rheoliadau perthnasol. Er enghraifft: • Nid oedd y RhTC neu ryw ddogfen arall yn cynnwys y wybodaeth ofynnol; neu • Ni ymatebodd y Cyngor i her neu ymatebodd yn rhy hwyr
5. Yn achos RhTC a anfonwyd drwy'r post ar y sail bod rhywun / rhywbeth wedi atal y CEO rhag rhoi'r RhTC lle nad ataliwyd y CEO felly	

Nid yw'r apelydd yn agored i dalu cosb oherwydd un o'r canlynol:

6. Nid yr apelydd oedd perchennog y cerbyd pan ddigwyddodd y toriad honedig	• Ni fu'n berchennog arno erioed • Roedd wedi'i werthu cyn neu wedi'i brynu ar ôl dyddiad y toriad – mewn achosion o'r fath dylai'r apelydd roi gwybodaeth ynghylch y trafodiad gan gynnwys enw a chyfeiriad y perchennog newydd neu flaenorol, os yw'n hysbys • Effaith rhai trefniadau prydlesu hirdymor yw trosglwyddo gofalaeth o'r ceidwad cofrestredig i'r llogwr
7. Y perchennog yw cwmni llogi cerbydau ac:	**i.** Roedd y cerbyd ar log dan gytundeb llogi cymhwysol; a **ii.** Roedd y llogwr wedi llofnodi datganiad atebolrwydd am unrhyw RhTC a roddwyd yn ystod y cyfnod llogi ****** Mae'r sail hwn yn berthnasol i gytundebau llogi ffurfiol yn unig pan fo'r llogwr wedi llofnodi cytundeb yn derbyn atebolrwydd am gosbau. Mae'r gofynion yn benodol. Maent yn Atodlen 2 i Rheoliadau Traffig Ffordd (Atebolrwydd y Perchennog) 2000 ac adran 66 o Ddeddf Tramwgyddwyr Traffig Ffyrdd 1988. Dylai'r apelydd roi enw a chyfeiriad y llogwr a chopi o'r cytundeb
8. Cymrwyd y cerbyd heb ganiatâd y perchennog	Mae'r sail hwn yn berthnasol i gerbydau a gafodd eu dwyn a cherbydau a ddefnyddiwyd heb ganiatâd y perchennog. Gallai fod yn berthnasol, er enghraifft, i gerbyd a gymrwyd

	gan ladron ceir. Nid yw'n gyffredinol berthnasol i gerbydau ym meddiant modurdy neu a fenthycwyd gan berthynas neu gyfaill. Os oes modd, dylai'r apelydd ddarparu **Cyfeir-rif Trosedd** gan yr heddlu.
9. Talwyd y gosb eisoes	(i) Yn llawn; neu (ii) Ar y **gyfradd ostyngol ac mewn pryd**.

Y Tribiwnlys Cosbau Traffig

Corff annibynnol yw'r Tribiwnlys Cosbau Traffig a bydd ei ddyfarnwyr diduedd, annibynnol yn ystyried apeliadau modurwyr a pherchenogion cerbydau a gafodd Rybudd Talu Cosb (RhTC) – neu y symudwyd (haliwyd ymaith) neu ataliwyd (clampiwyd) eu cerbydau – gan gyngor yng Nghymru a Lloegr (heblaw Llundain) sy'n gorfodi rheolau parcio dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

Disodlodd y Tribiwnlys Cosbau Traffig (TPT) y Gwasanaeth Dyfarnu ar Barcio Cenedlaethol (NPAS) ar 31 Mawrth 2008. Gwnaed y newid hwn i ddarparu ar gyfer y Rheoliadau Traffig newydd a gyflwynwyd ar y dyddiad hwnnw yn ôl telerau Deddf Rheoli Traffig 2004 ac i greu mynediad rhwyddach at y Tribiwnlys ar-lein.

Pan fydd y TPT yn derbyn apêl bydd yn cael ei hystyried gan ddyfarnwr annibynnol. Caiff pob achos ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun. Unwaith y bydd y Dyfarnwr wedi gwneud penderfyniad mae'n rhwymo'r Cyngor a'r Apelydd yn gyfreithiol.

Os bydd y Dyfarnwr yn penderfynu y dylid derbyn yr apêl yna bydd y Cyngor yn diddymu'r Rhybudd Talu Cosb. Fodd bynnag, os caiff yr apêl ei gwrthod, yna rhaid talu'r Gosb. Gall yr apelydd dalu'r Gosb ar yr adeg hon yn ôl y cyfarwyddyd ac yna bydd yr achos yn cael ei gau. Os na fydd yn talu, ar ôl 28 diwrnod bydd y Cyngor yn cyhoeddi Tystysgrif Taliad. Ar yr adeg hon mae'r gosb yn cynyddu 50%. Os na chaiff y taliad hwn ei wneud, ar ôl 14 diwrnod bydd y Cyngor yn cofrestru'r ddyled yn y Ganolfan Gorfodi Rheolau Traffig (TEC). Canolfan brosesu dyledion gorfodi swmp yw TEC, seiliedig yn Northampton. Mae'n ddull carlam o gofrestru dyledion.

Unwaith y cofrestrwyd y ddyled yn TEC, caiff cwmni beilïau allanol warant sy'n awdurdodi casglu'r ddyled sydd heb ei thalu ar ran y Cyngor. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn defnyddio Bailiff Services ac mae'n frwd dros fynd ar ôl pob Cosb sydd heb ei thalu.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar wefannau'r Tribiwnlys Cosbau Traffig neu PATROL (Rheoliadau Parcio a Thraffig oddi allan i Lundain) ynghylch unrhyw agwedd ar y broses apelio. Ymwelwch ag www.trafficpenaltytribunal.gov.uk neu www.patrol-uk.info i gael rhagor o fanylion.

Gwasanaethu Cwsmeriaid

Mae Cyngor Wrecsam yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth parcio o safon yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Cyngor eisiau sicrhau bod ei agwedd at orfodi'n deg a chyson gyda'r safonau gweithredol uchaf posibl. Er mwyn gwneud hyn mae'r Cyngor wedi datblygu'r Siarter Parcio canlynol.

Ansawdd

- Bod Swyddogion Gorfodi Sifil yn rhoi dim ond Rhybuddion Talu Cosb dilys yn y lle cyntaf.
- Ateb yn gyflym i heriau i Rybuddion Talu Cosb wrth ystyried holl sylwadau a wnaeth yr apelydd.
- Cyflwyno gwell trefnau a chyfundrefnau fel bod rhyngweithio â gwasanaeth parcio'r Cyngor yn rhwyddach i holl ddefnyddwyr.
- Delio â'r cyhoedd mewn ffordd gwrtais a phroffesiynol bob amser.

Cadarn

- Mynd ar ôl pob Rhybudd Talu Cosb i sicrhau bod holl arian sy'n ddyledus i'r Cyngor yn cael ei adennill.
- Cefnogi ac amddiffyn yn weithredol Swyddogion Gorfodi Sifil y Cyngor rhag unrhyw gam-drin a thrais.

Teg

- Delio â phob Rhybudd Talu Cosb yn unigol, yn ôl ei rinweddau ei hun.
- Arolygu a disodli unrhyw arwyddion neu linellau anghywir ar ffyrdd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn eglur ac yn hawdd i ddefnyddwyr y ffyrdd ei deall.
- Sicrhau cwblhau camau gorfodi cyson bob amser ac ym mhobman.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam byth a hefyd yn adolygu ei drefnau a chyfundrefnau er mwyn sicrhau bod ei wasanaeth parcio o safon uchel gyson bob amser. Mae hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn manteisio ar unrhyw ddatblygiadau yn y diwydiant parcio all elwa'r gwasanaeth a'r cwsmer.

Bwriad y gwasanaeth parcio at y dyfodol yw cynnal arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid. Fel hyn, bydd y Cyngor yn gallu ymwneud â'i gwsmeriaid a gweld a yw'r Cyngor yn llwyddo i ateb disgwyliadau'r cyhoedd. Bydd hefyd yn helpu'r Cyngor ddatblygu gwelliannau ystyrlon i'r gwasanaeth.

Yr Agwedd at Orfodi a Swyddogion Gorfodi Sifil

Trwy orfodi mae'r Cyngor, ar ôl ymgynghori â phobl leol, yn gallu cyflwyno polisïau ystyrlon ar barcio, penderfynu sut a phryd i wneud unrhyw orfodi ac yna wneud y gorfodi hwnnw.

Trwy orfodi mae gyrwyr yn gallu cael hyd i fan parcio ar y stryd yn rhwyddach, a thrwy ddosbarthu mannau parcio'n decach mae modd parcio mwy o gerbydau bob dydd – mantais bendant i siopau a busnesau eraill. Bydd gweithredwyr cludiant cyhoeddus yn gweld eu cerbydau'n symud yn well a bydd hynny, yn y pen draw, yn

dod ag amseroedd teithio mwy rhagweladwy, eto'n elwa'r rhai sy'n dod i'r Fwrdeistref Sirol. Bydd cryn dipyn yn llai o barcio anghyfreithlon ar linellau melyn sengl a dwbl ac mewn ardaloedd parcio cyfyngedig eraill sydd ar hyn o bryd yn drysu defnyddwyr eraill ffyrdd a phalmentydd. Bydd amgylchiadau amgylcheddol yn cael eu gwella trwy leihau nifer y cerbydau a barciwyd yn anghyfreithlon sydd ar hyn o bryd yn gorfodi eraill i gylchredeg wrth chwilio am fan parcio. Mae gan orfodi ran bwysig i'w chwarae wrth gynorthwyo blaenoriaeth y Cyngor o leihau allyriadau carbon.

Gyda CPE, un drefn orfodi sydd, fel bod y cyhoedd yn gweld gorfodi rheolau parcio'n symlach a mwy effeithiol. I weld dogfen fanylach ynghylch agwedd y Cyngor at orfodi, ymwelwch ag www.wppp.org.uk.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cyflogi'r Swyddogion Gorfodi Sifil yn uniongyrchol. Trwy gadw'r swyddogaeth hon yn 'fewnol' mae'r Cyngor yn gallu sicrhau'n well bod pob agwedd ar ei waith gorfodi rheolau parcio'n cael ei wneud gan staff o safon a hyfforddwyd yn dda a'u perfformiad yn cael ei chymharu'n effeithiol gyferbyn â'r safonau a chanllawiau a bennodd y Cyngor iddynt eu dilyn.

Amcan pennaf Swyddogion Gorfodi Sifil (CEO) Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yw sicrhau bod rheolaethau parcio'n cael eu cadw a'u gorfodi mewn ffordd deg, gywir a chyson.

Bydd CEO yn dilyn rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant sydd â chefnogaeth llawlyfr 'Cod Ymarfer' CEO sydd â chyfarwyddiadau eglur ar sut i wneud dyletswyddau'r gwaith, ac sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.

Tra bo'r Cyngor yn cadw golwg ar berfformiad ei CEO, nid yw'n pennu unrhyw dargedau RhTC. Mae'r CEO yn weithwyr cyflogedig y Cyngor nad oes unrhyw fath o gymhelliad na bonws iddynt am nifer y RhTC a roddant. Os bydd CEO yn rhoi RhTC mae hynny oherwydd y torrwyd un o'r rheolau parcio.

Er mwyn gwarchod y CEO rhag honiadau o anghysondeb neu ffafriaeth, unwaith y byddant wedi rhoi RhTC, nid ydynt yn gallu ei ddiddymu na'i dynnu'n ôl. Mae disgwyl i CEO wneud eu dyletswyddau gorfodi mewn ffordd drwyadl, deg a phroffesiynol a thrin holl fodurwyr heb ddangos ffafr, tuedd na rhagfarn.

Mae'r Cyngor yn lleoli ei CEO fel ag i roi cwmpas cynhwysfawr o holl gyfyngiadau ar barcio ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol, er bod angen rhoi blaenoriaeth i'r ardaloedd hynny lle mae'r rhan fwyaf o broblemau parcio fel yng nghanol ac o amgylch tref Wrecsam.

Ers dechrau CPE yn 2008, mae staff gwasanaethau parcio wedi dod i ddeall yn dda ymhle a phryd mae parcio difeddwl yn digwydd. Fodd bynnag, os bydd y cyhoedd yn cael problemau parcio arbennig, ni ddylent betruso cyn cysylltu â gwasanaethau parcio i dynnu sylw at eu pryderon a thrafod y problemau sy'n eu hwynebu.

Cynlluniau Parcio Trigolion

Caiff Cynlluniau Parcio Trigolion (RPS) eu dylunio i roi blaenoriaeth i drigolion lleol ar fannau parcio ar y stryd, yn enwedig lle maent yn cael anawsterau parcio ger eu cartrefi. Bwriad cynlluniau yw atal rhai nad ydynt yn drigolion, fel cymudwyr a siopwyr, rhag parcio ar strydoedd preswyl. Bydd angen i drigolion ddangos hawlen er mwyn iddynt allu parcio ar stryd mewn parth parcio dynodedig. Bydd arwyddion a marciau ffordd yn cael eu defnyddio i ddiffinio'r mynedfeydd i bob Parth Parcio Trigolion ac i ddangos yr ardaloedd lle gall trigolion barcio.

Roedd amryw drigolion wedi cysylltu â'r Cyngor yn mynegi diddordeb mewn Cynlluniau Parcio Trigolion. Nododd arolygon parcio diweddar y cylchoedd preswyl oedd dan bwysau parcio fel y mannau mwyaf priodol i gynnig Cynllun Parcio Trigolion. Fodd bynnag, ymatebodd llai na 30% pan wnaed ymgynghoriad dechreuol gyda thrigolion a rhanddeiliaid allweddol yn y cylchoedd preswyl hyn ac roedd llai na hanner yr ymatebion hynny'n cefnogi'r cynllun.

Hysbyswyd y canlyniadau hyn i Fwrdd Gweithredol y Cyngor a phenderfynwyd NA ddylid symud ymlaen i Gynllun Parcio Trigolion rhagbrofol ar hyn o bryd oherwydd diffyg cefnogaeth gyhoeddus.

Nid yw pwysau parcio ar y stryd wedi mynd i ffwrdd. Cynlluniau Parcio Trigolion yw un dull o reoli parcio sy'n gallu dal i ffurfio rhan o strategaeth barcio ehangach Wrecsam, sydd hefyd yn cynnwys Gorchmynion Rheoleiddio Traffig, mannau parcio oddi ar y stryd a meysydd parcio. Bydd Pwyllgor Archwilio Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor yn ystyried pob un o'r agweddau hyn fel rhan o strategaeth barcio'r Cyngor yn y misoedd a ddaw.

Gorfodi Ger Ysgolion

Un o flaenoriaeth allweddol y gwasanaethau parcio yw gorfodi cyfyngiadau ar barcio oddi allan i ysgolion neu gerllaw iddynt. Erbyn hyn mae cyfyngiadau 'Ysgol Cadwch yn Glir' o flaen pum ysgol sy'n cael eu gorfodi gan y Cyngor ac mae hyn yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Bydd CEO yn ymweld yn rheolaidd â'r ysgolion hyn, yn y bore a'r prynhawn yn ystod yr wythnos ysgol. Bydd y CEO yn cynghori'r rhieni ar barcio priodol ond byddant yn barod i roi RhTC os bydd unrhyw un yn parcio ar y cyfyngiadau o flaen yr ysgolion. Mae diogelwch y plant sy'n mynychu ysgolion y Fwrdeistref yn hanfodol bwysig i'r Cyngor.

Mae nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd heb gyfyngiadau yn y Fwrdeistref Sirol. Felly, ni all y Cyngor orfodi yn y mannau hyn. Fodd bynnag, bydd y CEO yn ymweld â'r ysgolion hyn mewn ymateb i unrhyw gwynion penodol.

Yn bur aml bydd y CEO yn ymweld ar y cyd â'r Heddlu / Swyddogion Cymunedol yr Heddlu (PCSO) gan fod hyn yn caniatáu mynd i'r afael â phob math o barcio anghywir ger ysgolion fel creu rhwystr a pharcio ar y palmant sy'n dal yn gyfrifoldeb yr Heddlu.

Yn ystod 2009 – 2010, gwnaeth CEO dros ddeugain o ymweliadau ag ysgolion ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol. Dim ond ychydig o RhTC a roddwyd, ond rhoddwyd llawer o gyngor i rieni. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r CEO yn gweithredu fel ataliad. Bydd llawer o gerbydau'n symud cyn gynted ag y bydd y CEO yn ymddangos heb orfod rhoi RhTC. Mae Aelodau'r Cyngor yn cefnogi gorfodi rheolau parcio'n llawn mewn ysgolion ymhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol ac eisiau cynyddu gorfodaeth yn y dyfodol.

Mae Gwasanaethau Parcio'n cael llawer o ymateb cadarnhaol oddi wrth rieni a'r athrawon ynghylch yr ymweliadau ag ysgolion. Fodd bynnag, mae'r CEO wedi cael peth gwrthwynebiad a sylwadau negyddol ynghylch y gweithgareddau gorfodi. Rydym yn gobeithio gweithio'n agosach gyda'r ysgolion yn y dyfodol i dynnu sylw at bwysigrwydd parcio'n ddiogel ger ysgolion.

Gorfodi Rheolau Bathodyn Glas

Trefniant cenedlaethol o oddefiadau parcio yw'r Cynllun Bathodyn Glas ar gyfer pobl gydag anawsterau cerdded difrifol sy'n teithio fel gyrwyr neu deithwyr. Mae'r cynllun yn caniatáu i ddeiliaid bathodynnau barcio'n agos at eu cyrchfan. Mae'n bwysig nodi bod y goddefiadau cenedlaethol yn berthnasol i barcio ar y stryd yn unig.
Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o weithredwyr parcio, gan gynnwys y Cyngor, yn trefnu ar gyfer deiliaid bathodyn glas mewn meysydd parcio oddi ar y stryd.

Mae tîm unswydd o staff seiliedig yng Nghanolfan Gysylltu'r Cyngor yn gyfrifol am dderbyn a phrosesu holl geisiadau bathodyn glas. Maent yn defnyddio canllawiau Cynulliad Cymru i wneud penderfyniadau ar hawl i ymuno â'r cynllun. Mae bathodynnau glas yn ddilys am 3 blynedd, sy'n golygu bod dros 8,000 o fathodynnau glas dilys a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn cylchredeg ar unrhyw adeg arbennig fel arfer. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â thîm bathodyn glas y Cyngor ar 01978 298054.

Mae manylion y cynllun, consesiynau perthnasol a chyfrifoldebau deiliaid bathodyn glas i'w cael yn llyfryn Llywodraeth Cymru, "Y Cynllun Bathodyn Glas" yn:
http://wales.gov.uk/docs/det/publications/100108bluebadgeschemeen.pdf
neu gallwch gael copi gan eich awdurdod dyroddi. Gall Gwasanaethau Parcio hefyd ddarparu copi o'r llyfryn canllawiau ar gais.

Mae'n bwysig iawn bod deiliaid bathodynnau'n darllen a deall y llyfryn canllawiau cyn defnyddio eu bathodyn. Tra bo'r cynllun yn cynnig rhai goddefiadau parcio, nid yw'r cynllun yn rhoi rhyddhad o holl gyfyngiadau ar barcio. Rhaid i ddeiliaid bathodynnau gadw at y cyfyngiadau ar barcio sy'n bodoli yn unrhyw fan arbennig.

Ar hyn o bryd, nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn codi tâl, nac yn rhoi terfyn amser, ar gerbydau sy'n dangos bathodyn glas dilys yn gywir yn ein meysydd parcio talu a dangos. Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau ar y stryd y mae angen i ddeiliaid bathodynnau fod yn ymwybodol ohonynt a chadw atynt yng Nghanol Tref Wrecsam ac ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol.

Ers dechrau CPE yn 2008, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi gorfodi rheolau'r Cynllun Bathodyn Glas ac mae'n cadw golwg o hyd ar gamddefnyddio twyllodrus o'r cynllun. Mae'r Cyngor yn credu bod y cynllun yn rhoi buddiannau cadarnhaol i bobl sy'n wirioneddol ei angen ac rydym yn ymfalchïo mewn ceisio sicrhau bod mannau ar gael bob amser i ddefnyddwyr bathodynnau dilys.

I'r perwyl hwnnw, nid yn unig mae'r Cyngor yn gorfodi rheolau bathodyn glas fel rhan o'i dyletswyddau gorfodi rheolaidd, ond yn mynd ati i ganolbwyntio ar eu gorfodi mewn mannau amrywiol ynghanol y dref. Bydd y CEO yn aros mewn man arbennig ac yn gofyn i unrhyw un sy'n parcio trwy ddefnyddio'r goddefiadau bathodyn glas am ganiatâd i ddilysu manylion y bathodyn. Ers 2006, mae CEO y Cyngor wedi bod ag awdurdod i ofyn am ganiatâd i ddilysu bathodyn ac mae'n drosedd gwrthod heb esgus rhesymol.

Yn ystod 2009 – 2010, gwnaed pedwar ar bymtheg o sesiynau gorfodi canolbwyntiedig. Mae'r sesiynau a wnaed hyd yma i gyd wedi cael bathodynnau glas yn cael eu defnyddio gan eu deiliaid priodol. Fodd bynnag, tra bo hyn yn gadarnhaol, mae tystiolaeth chwedlonol fod camddefnyddio'n digwydd. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i ddal i weithio yn y maes hwn i sicrhau nad yw camddefnyddio twyllodrus yn cynyddu.

Ar hyn o bryd mae'r Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru'n adolygu'r Cynllun Bathodyn Glas a sefydlwyd yn 1971 i ddiweddaru'r cynllun ar gyfer yr 21^{ain} ganrif. Y gobaith yw y bydd yr adolygiad yn dod â rhai newidiadau cadarnhaol i weinyddiad y cynllun, ac yn lleihau'r cyfleoedd i'w gamddefnyddio'n dwyllodrus.

Os ydych yn amau bod Bathodyn Glas yn cael ei ddefnyddio'n dwyllodrus, neu'n pryderu, cysylltwch â'r gwasanaethau parcio ar 01978 292042.

Datblygiadau 2009 – 2010

Roedd 2009 – 2010 yn flwyddyn eithriadol brysur i wasanaeth parcio Wrecsam. Hon oedd yr ail flwyddyn gron o weithredu CPE ac, felly, daeth staff yn fwy profiadol yn y ddeddfwriaeth a chael darlun eglur o bryd ac ymhle y bydd parcio anystyriol a gwrthgymdeithasol yn aml yn digwydd. Mae hyn yn gadael i'r Cyngor ddarparu gwasanaeth mwy ymatebol, gan ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar adegau a mannau sy'n peri problemau.

Gwellwyd cysylltiadau â'r heddlu lleol gan beri mwy o weithio ar y cyd, sy'n golygu bod modd mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion parcio gyda'i gilydd. Yn ogystal, mae ein gwaith ar y cyd â Phartneriaeth Prosesu Cosbau Cymru (WPPP) yn dal i fynd o nerth i nerth.

Caiff y gwasanaeth ei wneud trwy ddefnyddio amrywiaeth o fathau o gludiant fel fan unswydd, cludiant cyhoeddus ac ar ddeudroed. Teimlwyd mai cludiant priodol arall fyddai beiciau. Byddai hyn yn caniatáu cwmpasu mwy o lwybrau canol y dref. Felly, prynwyd dau feic yn ystod y flwyddyn sydd hefyd yn helpu lleihau ôl troed carbon y Gwasanaeth.

Cytunodd y Cyngor ar raglen o sefydlu parthau 20mya y tu allan i ysgolion sy'n cyrraedd cyfres o feini prawf cymeradwy. Yn ogystal â'r parthau 20mya, sefydlwyd cyfyngiadau 'ysgol cadwch yn glir' hefyd ar yr un pryd. Symudodd y Cyngor ymlaen o fod â dim ond dwy ysgol gyda chyfyngiadau gorfodadwy i bum ysgol yn ystod 2009 – 2010 y mae modd eu gorfodi'n effeithiol. Y disgwyl yw y bydd nifer yr ysgolion lle mae modd gorfodi'r rheolau'n dal i dyfu yn y dyfodol.

Bob blwyddyn bydd y Cyngor yn cwblhau gorchymyn cydgrynhoi sydd i bob diben yn cynyddu nifer y Gorchmynion Rheoli Traffig (TRO), yn enwedig lle nodwyd problemau parcio. Yn 2009 – 2010, ychwanegwyd rhyw hanner cant o fannau gyda chyfyngiadau TRO newydd ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol. Roedd nifer o gyfyngiadau'n agos at ganol y dref oedd, ar y cyd â lleihau'r pris parcio diwrnod cyfan ym maes parcio amrylawr Marchnad y Bobl y Cyngor, yn anelu at geisio mynd i'r afael â mater parcio cymudwyr mewn strydoedd preswyl ger Canol y Dref. Y gobaith yw y byddwn yn gallu hysbysu llwyddiant y gwaith hwn yn y dyfodol.

Yn anffodus, ar ôl ymgynghoriad â'r cyhoedd, penderfynwyd na fyddai Cynllun Parcio Trigolion rhagbrofol yn bwrw ymlaen oherwydd nad oedd mwyafrif y trigolion lleol yn cefnogi'r cynigion. Nid yw pwysau parcio ar y stryd wedi mynd i ffwrdd a bydd dewisiadau eraill yn cael eu hystyried yn y misoedd a ddaw.

Mae'n bwysig cydnabod fod y tîm gwasanaethau parcio wedi parhau'r holl waith gorfodi rheolaidd wrth gyflwyno gwelliannau mewn llawer o ardaloedd, ymrwymiad eglur tuag at roi gwasanaeth o safon i'r cyhoedd.

Cyfrifon Ariannol

Adran 55 o Deddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984 fel y newidiwyd gan Ddeddf Rheoli Traffig (TMA) 2004 sy'n rhoi'r cyfarwyddyd a rheoliadau ar gyfer rheolaeth ariannol gwasanaethau parcio.

Yn ddelfrydol dylai Gorfodi Rheolau Parcio Sifil dalu amdano'i hun. Fodd bynnag, rhaid derbyn nad yw hyn yn hawdd i awdurdodau llai sy'n gweithredu CPE ei wneud. Gwelwyd bod y gwahaniaeth mewn ardollau Rhybuddion Talu Cosb wedi cael effaith ar fantolen ariannol rhai gweithrediadau. Mae'r arian sy'n dod o'r gwaith gorfodi

rheolau parcio'n talu am y Swyddogion Gorfodi Sifil, costau prosesu'r cosbau, cynnal y meysydd parcio, eu harwyddion a llinellau ac ati. Nid yw'r Cyngor yn defnyddio'r gwasanaeth i gynhyrchu cyllid. Ar ôl talu'r costau hyn, rhaid clustnodi unrhyw arian dros ben o RhTC ar y stryd yn ôl y gyfraith a'i drosglwyddo i'r awdurdod priffyrdd lleol (sef Cyngor Wrecsam ei hun). Yn ei dro, ni chaiff yr awdurdod priffyrdd ddefnyddio'r arian hwnnw heblaw i dalu am welliannau cysylltiedig â chludiant yn y cylch lleol.

Fel cyferbyniad, NID yw unrhyw arian sy'n dod o barcio oddi ar y stryd (trwy RhTC a derbyniadau talu a dangos) yn cael ei glustnodi. Gall y Cyngor ddefnyddio'r arian hwn at unrhyw ddiben a fyn.

Mae cyllideb gwariant ac incwm y gwasanaethau parcio i'w gweld drosodd. Dengys penawdau'r gyllideb yn eglur y gwariant ar gyflogeion, eiddo ac adeiladau, cludiant a chyflenwadau ac mae'r incwm yn dangos yr amrywiol ffrydiau cyllid. Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod gofyniad ar y gwasanaeth parcio i gynhyrchu gwarged o £559k o fewn cyllideb arian cyfyngedig y Cyngor at ei gilydd. Yn 2009-2010 yr union warged a gynhyrchwyd oedd £489k. Mae'r arian dros ben yn cyfrannu at gyflenwi gwasanaethau craidd eraill o fewn Adran yr Amgylchedd (Adran Cludiant a Rheoli Asedau gynt).

Gwasanaethau Parcio
Cyfrif Incwm a Gwariant 2009 – 2010

	£	£	£
Cyflogau	205,511		
Hyfforddiant	1,965		
Cyfanswm Costau Cyflogeion		**207,476**	
Cynnal Tiroedd	19,061		
Trydan	25,069		
Trethi Busnes	69,740		
Gosodion a Ffitiadau	395		
Symud Gwastraff	7,282		

Cyfanswm Costau Eiddo ac Adeiladau		**121,547**	
Costau tanwydd	1,382		
Costau cerbydau	2,018		
Teithio staff	1,553		
Cyfanswm Costau Cludiant		**4,953**	
Offer	21,509		
Deunyddiau	1,418		
Gwisgoedd staff	3,057		
Argraffu / llungopïo	3,414		
Ffïoedd	30,391		
Costau ffôn	4,674		
Costau cyfrifiadurol	1,939		
Tanysgrifiadau	700		
Hysbysebu	8,032		
Cyfanswm Cyflenwadau a Gwasanaethau		**75,134**	
Costau gwaith	27,382		
Glanhau	12,000		
TCC	12,702		
Awdurdodau lleol eraill	40,095		
Contractwyr preifat	9,148		
Cyfanswm Taliadau Trydydd Parti		**101,327**	
CYFANSWM GWARIANT			**510,437**
Incwm talu a dangos	-756,692		
RhTC oddi ar y stryd	-2,077		
Incwm tocynnau tymor	-15,795		
RhTC ar y stryd	-191,694		
Rhenti	-1,018		
Incwm arall	-3,257		
Cyfraniad gweddillion	-29,451		
CYFANSWM INCWM			**-999,984**
CYFANSWM			**-489,547**

Ystadegau a Pherfformiad

Fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo gwelliannau wrth hysbysu'r cyhoedd ynghylch gorfodi rheolau parcio, nod yr adran hon yw rhoi ystadegau manwl a data perfformiad am y cyfnod 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010. Mae'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau sy'n cael eu hystyried o ddiddordeb i'r cyhoedd.

Gan mai dyma'r ail flwyddyn gron gweithgareddau CPE Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae modd dangos bellach rhai cymariaethau mewn perfformiad rhwng un flwyddyn a'r llall yn yr adroddiad hwn.

	2008 - 2009	2009 - 2010
Rhybuddion Talu Cosb a Roddwyd		
Cyfanswm y RhTC a roddwyd	**7,324**	**6748**
Nifer y RhTC a roddwyd – ar y stryd	**4,470**	**3578**
Nifer y RhTC a roddwyd – oddi ar y stryd	**2,847**	**3170**
Cosbau a Dalwyd		
Cyfanswm y Cosbau a dalwyd	**6,888**	**5257**
Nifer y Cosbau gostyngol a dalwyd (o fewn 14 diwrnod)	**3,694**	**4089**
Nifer y Cosbau pris llawn a dalwyd	***3,194**	***907**
Nifer y Cosbau a dalwyd ar ôl anfon Tystysgrifau Taliad	**245**	**261**
Rhybuddion Talu Cosb a Heriwyd		
Nifer y RhTC a heriwyd yn anffurfiol	**1,545**	**1762**
Nifer y RhTC a heriwyd gyda sylwadau ffurfiol gwnaed	**184**	**203**
Nifer y RhTC a ddiddymwyd o ganlyniad i her anffurfiol neu sylwadau ffurfiol	**996**	**966**
Nifer y RhTC a ddiddymwyd am resymau eraill h.y. DVLA yn methu darparu manylion y ceidwad cofrestredig	***1,291**	***152**
Apeliadau at y Tribiwnlys Cosbau Traffig (TPT)		
Nifer y sylwadau ffurfiol a aeth i apêl	**10**	**18**
Nifer y RhTC a ganiatawyd gan y dyfarnwr wrth apelio	**3**	**3**
Nifer y RhTC a wrthodwyd gan y dyfarnwr wrth apelio	**4**	**11**
Nifer yr apeliadau at TPT na heriwyd gan y Cyngor	**3**	**4**
Tystysgrifau Taliad		
Nifer y tystysgrifau taliad a gofrestrwyd yng Nghanolfan Gorfodi Rheolau Traffig (TEC)	**752**	**639**

*Mae'r gwahaniaethau yn y data i'w priodoli i gael eu crynhoi'n wahanol yn 08/09 i 09/10.

Mae'n werth nodi bod nifer y Rhybuddion Talu Cosb a roddwyd mewn gwirionedd yn 2009 – 2010 wedi lleihau. Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol dros ben gan fod hyn yn golygu i bob diben bod llai o gerbydau'n cael eu parcio'n anghywir, sy'n golygu bod y rhwydwaith priffyrdd yn gweithredu'n fwy diogel ac effeithlon nag yn y flwyddyn flaenorol. Ni ddylid ei weld fel adlewyrchiad o berfformiad y CEO.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth (DfT) yn datgan y dylai awdurdodau ddelio â modurwyr yn brydlon ac yn broffesiynol. Caiff awdurdodau eu hannog i bennu targedau amser ac ansawdd ar gyfer delio ag ymholiadau, yn ogystal ag unrhyw derfynau amser statudol a'r rhai sydd yn unrhyw gyfarwyddyd statudol. Bydd WPPP yn defnyddio post dosbarth cyntaf ar holl ohebiaeth ac yn parhau o flwyddyn i flwyddyn i ymateb i 95% o **holl** ohebiaeth sy'n cyrraedd (heriau, sylwadau, ymholiadau ac ati) ar ddiwrnod ei dderbyn.

Mae holl Rybuddion Talu Cosb sy'n cael eu rhoi'n cynnwys gwybodaeth am sut i dalu neu sut i wneud apêl os bydd y derbynnydd yn meddwl bod Rhybudd Talu Cosb

wedi cael ei roi'n anghywir. Caiff pob her anffurfiol / ffurfiol ei barnu yn ôl ei theilyngdod ei hun. Heriwyd mwy o RhTC a roddwyd yn anffurfiol / ffurfiol yn 2009 – 2010. Fodd bynnag, dengys y data bod nifer y diddymiadau a wnaed yn ystod 2009 – 2010 wedi lleihau i 966. Diddymwyd Rhybuddion Talu Cosb am resymau amrywiol, fel rhoi tystiolaeth o lwytho / dadlwytho, amgylchiadau oedd y tu hwnt i reolaeth y gyrrwr neu argyfwng meddygol. Mae'n bwysig bod amgylchiadau lliniarol o'r fath yn cael eu hystyried yn llawn.

Os yw'r Cyngor yn gwrthod her ffurfiol, gall ceidwad cofrestredig y cerbyd apelio at ddyfarnwr annibynnol yn y Tribiwnlys Cosbau Traffig (TPT). Yn ystod 2009 – 2010, cyfeiriwyd deunaw achos at y TPT. Bydd y dyfarnwr yn ystyried unrhyw resymau lliniarol eraill dros barcio'r cerbyd yn groes i gyfyngiad ar barcio. Roedd y Cyngor yn llwyddiannus trwy fod un ar ddeg o achosion wedi cael eu gwrthod (apeliadau heb eu caniatáu) sy'n awgrymu bod y Cyngor yn rhoi Rhybuddion Talu Cosb o safon ac yn ystyried unrhyw heriau'n deg ac mewn ffordd gall.

Mae '*Adroddiad ar y Cyd y Dyfarnwyr Parcio ar Apeliadau gan Awdurdodau Gorfodi Cymru'* 2009 – 2010*,* yn dangos bod agwedd bwyllog awdurdodau CPE Cymru'n fuddiol i'r cyhoedd a bod WPPP yn cynhyrchu sypiau tystiolaeth apêl o safon ac agwedd gyson at apeliadau sy'n gadarnhaol iawn.

Y gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o orfodi rheolau parcio lleol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, gyda phosibilrwydd cymharu'r gwasanaeth sy'n cael ei gyflenwi rhwng un flwyddyn a'r llall. Y gobaith yw y gall y data hyn ddarparu dangosyddion o lwyddiant CPE ac ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei gyflenwi ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Datblygiadau i Ddod

Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, nid oes unrhyw amheuaeth y bydd yr amseroedd i ddod yn her i'r Cyngor. Fel rhan o ddelio â'r sefyllfa, mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad 'trawsffurfio'. Mae hyn yn golygu adolygiad llawn o strwythur y Cyngor a'r gwasanaethau a gyflenwa. Mae'r adolygiad hwn yn debygol o effeithio ar y Gwasanaethau Parcio, efallai'n cynnwys newid adran atebol. Fodd bynnag, y disgwyl yw y bydd unrhyw newid yn rhoi cyfleoedd i gysylltu'n agosach ag adrannau eraill, gwella cyfathrebu a gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei gyflenwi.

Mae'r galw am orfodi rheolau ger ysgolion yn debygol o gynyddu wrth sefydlu mwy o gyfyngiadau 'ysgol cadwch yn glir'. Ar y cyd â dal i ganolbwyntio ar orfodi rheolau bathodyn glas, bydd swyddogaeth y Swyddogion Gorfodi Sifil yn dal i ddatblygu a datblygu. Fe all fod cyfle hefyd i weld a oes cyfle i'r CEO wneud dyletswyddau gorfodi eraill.

Wrth i fwy o awdurdodau lleol gymryd pwerau gorfodi rheolau parcio sifil, felly gall mwy o awdurdodau ystyried ymuno ag WPPP. Bydd mwy o aelodau yn y bartneriaeth nid yn unig yn dod â buddiannau ariannol i awdurdodau partner ond hefyd yn sicrhau agwedd gyson at orfodi rheolau parcio ar hyd a lled Cymru.

Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n terfynu'r newidiadau deddfwriaeth angenrheidiol i ganiatáu i'r Cyngor orfodi rheolau cyrbau isel. Y disgwyl yw y bydd y newidiadau hyn yn weithredol tua diwedd 2010 neu ar ddechrau 2011. Unwaith y bydd y ddeddfwriaeth mewn grym, bydd y Cyngor yn ystyried sut i symud y cylch gwaith hwn yn ei flaen i ddod â'r buddiannau mwyaf i'r cyhoedd.

Er mwyn rhoi gwybodaeth gywirach a mwy amserol, mae Cyngor Wrecsam wrthi'n gosod offer monitro ar y pryd yn holl feysydd parcio canol y dref. Bydd y wybodaeth o'r rhain yn cael ei defnyddio i sicrhau bod y Cyngor yn gallu ymateb yn effeithiol i newidiadau byrdymor mewn galwadau a chynllunio'n briodol at y dyfodol. Bydd cyfundrefnau cyfathrebu deallus newydd ac arloesol yn chwarae rhan sylfaenol wrth reoli a gweithredu rhwydwaith cludiant Wrecsam yn y dyfodol, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae tagfeydd a galwadau mawr am barcio.

Tra bo'r dyfodol yn mynd i fod yn her, mae gwasanaeth parcio'r Cyngor yn bwriadu dal i ddod â buddiannau cadarnhaol i Fwrdeistref Sirol Wrecsam heddiw ac i'r dyfodol.

Diweddglo

Nid yw gorfodi rheolau parcio fyth yn mynd i fod yn boblogaidd oherwydd ein bod, yng nghymdeithas heddiw, eisiau parcio yn y fan y mynnwn, cyhyd ag y mynnwn ac yn ddi-dâl, o ddewis. Gyda thros 31 miliwn car ar ffyrdd y DU, nid yw hyn yn ymarferol o gwbl. Fodd bynnag, bydd dilyn y Rheolau'r Ffordd Fawr a chadw at gyfyngiadau ar barcio yn helpu defnyddwyr cerbydau i barcio'n ddiogel, yn gall ac mewn ffordd nad yw'n peri trafferth i bobl eraill.

Mae'r Cyngor yn gobeithio bod yr adroddiad wedi rhoi cipolwg ar weithgareddau parcio'r Cyngor ac mae wedi rhoi digon o wybodaeth i'r cyhoedd ddeall ein gwasanaethau a'n dulliau gweithredu, deall pam fod cyfyngiadau yno a pham eu bod yn cael eu gorfodi fel y maent. Gobeithiwn ei fod wedi dangos amrywiaeth eang a chymhlethdod gwaith staff y gwasanaethau parcio i ateb gofynion modurwyr a'r cyhoedd.

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i wneud ei weithrediad parcio'n decach a bod yn agored ynghylch ei bolisïau parcio a'i weithgareddau gorfodi. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn i sôn wrth y gymuned leol a rhai eraill â diddordeb am y newidiadau a wnaeth y Cyngor a'r rhai sy'n cael eu hystyried at y dyfodol. Byddwn yn dal i edrych ar ffyrdd o wella ein gwasanaeth ond, fel y crybwyllwyd drwy'r adroddiad hwn i gyd, mae gennym wir ddiddordeb yn unrhyw sylwadau, awgrymiadau neu ymholiadau sydd gennych ac yn croesawu eich ymateb bob amser.

Atodiadau

BYD DŴR

Disgrifiad o'r Maes Parcio
Dyma'r maes parcio mwyaf o ran arwynebedd ynghanol y dref ac fe'i rhannwyd yn ddwy ardal. Neilltuwyd yr adran fwyaf, o flaen Byd Dŵr ac ar bwys Stryt Holt, i barcio hir-aros gyda'r adran ar bwys Stryt Caer yn cael ei gadw ar gyfer parcio byr-aros yn unig, ac;

Adeiladau'r Goron – defnydd preifat ar ddyddiau gwaith, talu a dangos ar benwythnosau'n unig

Nifer y lleoedd	337 gan gynnwys 16 anabl
Prisiau	0 - 2 awr – £1.00 0 - 3 awr – £1.50 Dros 3 awr – £3.00
Nifer y Peiriannau Metric Aura	5 yn y prif faes parcio 1 yn Adeiladau'r Goron
Gwyliadwriaeth TCC	Camerâu canol y dref yn cadw gwyliadwriaeth o gylchfan Ffordd Holt a Stryt Caer gyda chamerâu ar Adeiladau'r Goron eu hunain
Gwybodaeth Ychwanegol	Mae maes parcio Adeiladau'r Goron yn faes parcio preifat o ddydd Llun i ddydd Gwener at ddefnydd staff CBSW a'r Llysoedd yn unig Tu cefn i'r maes parcio mae Canolfan Hamdden Byd Dŵr, Llysoedd y Gyfraith a'r Neuadd Goffa Caiff staff hawlenni dros dro am resymau iechyd a mamolaeth Ardal benodol ar gyfer parcio beiciau modur
Gwobr Parcio Mwy Diogel ParkMark®	Achredwyd gyntaf yn 2007 gydag ailachrediad cyfredol ers hynny.

AMRYLAWR MARCHNAD Y BOBL

Disgrifiad o'r Maes Parcio
Mae'r maes parcio ar bedwar llawr, bob yn hanner llawr uwchben un o farchnadoedd dan do'r Cyngor.

Nifer y lleoedd	335 gan gynnwys 9 anabl
Prisiau	0 - 1 awr – 50c 1 - 3 awr – £1.50 Dros 3 awr – £2.00
Nifer y Peiriannau Metric Aura	8
Gwyliadwriaeth TCC	30 camera unswydd i wylio'r maes parcio – fodd bynnag nid oes dim gwyliadwriaeth dros 2 o'r 4 grisiau
Gwybodaeth Ychwanegol	Lefelau 1/1a byr-aros yn unig (arhosiad hwyaf o 3 awr) Mae cyd-ddiddordeb yn yr adeilad amrylawr gyda'r farchnad ar y llawr isaf a'r maes parcio ar y 4 llawr uchaf. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n cynnal yr adeilad, Gweinyddion y Farchnad sy'n glanhau ardaloedd y grisiau / lifft / arcedau a'r Swyddogion Gorfodi Sifil yn ysgubo'r lloriau'r maes parcio. Hawlenni parcio staff ar gyfer lefelau 4 a 4a
Gwobr Parcio Mwy Diogel ParkMark®	Achredwyd gyntaf yn 2001 gydag ailachrediad cyfredol ers hynny.

CILGANT SAIN SIÔR	
Disgrifiad o'r Maes Parcio Mae'r maes parcio ynghanol cylchfan ynghanol y dref.	
Nifer y lleoedd	70 gan gynnwys 4 anabl
Prisiau	0 - 1 awr – 50c 1 - 3 awr – £1.50
Nifer y Peiriannau Metric Aura	2
Gwyliadwriaeth TCC	Camera canol y dref ar gylchfan Ffordd Sir Amwythig / Ffordd Smithfield yn cadw gwyliadwriaeth
Gwybodaeth Ychwanegol	Maes parcio byr-aros yn unig (arhosiad hwyaf o 3 awr) Neilltuwyd 3 lle'n benodol ar gyfer parcio Meddygon meddygfa ar Gilgant Sain Siôr
Gwobr Parcio Mwy Diogel ParkMark®	Achredwyd gyntaf yn 2000 gydag ailachrediad cyfredol ers hynny.

SAN SILYN	
Disgrifiad o'r Maes Parcio Mae'r maes parcio ar ochr ddeheuol canol y dref y tu cefn i Eglwys San Silyn	
Nifer y lleoedd	69 gan gynnwys 4 anabl
Prisiau	0 - 1 awr – 50c 1 - 3 awr – £1.50
Nifer y Peiriannau Metric Aura	2
Gwyliadwriaeth TCC	Camera canol y dref yng Nglan yr Afon ac ar y maes parcio ei hun yn cadw gwyliadwriaeth
Gwybodaeth Ychwanegol	Maes parcio byr-aros yn unig (arhosiad hwyaf o 3 awr) Ardal benodol ar gyfer parcio beiciau modur
Gwobr Parcio Mwy Diogel ParkMark®	Achredwyd gyntaf yn 2000 gydag ailachrediad cyfredol ers hynny.

Y LLYFRGELL	
Disgrifiad o'r Maes Parcio Mae'r maes parcio ynghanol y dref yn union y tu allan i adeilad y Llyfrgell	
Nifer y lleoedd	99 gan gynnwys 15 anabl
Prisiau	0 - 1 awr – 60c 1 - 2 awr – £1.20
Nifer y Peiriannau Metric Aura	2
Gwyliadwriaeth TCC	Camera canol y dref ar Stryt Caer ac ar y maes parcio ei hun yn cadw gwyliadwriaeth
Gwybodaeth Ychwanegol	Maes parcio byr-aros yn unig (arhodiad hwyaf o 2 awr) Tu cefn i'r Llyfrgell mae maes parcio preifat i'r staff gyda mynediad o Ffordd Rhosddu sydd i'w ddefnyddio gan staff CBSW ac ar gyfer llwytho faniau'r llyfrgell deithiol. (Nid yw dan reolaeth y Gwasanaethau Parcio)
Gwobr Parcio Mwy Diogel ParkMark®	Achredwyd gyntaf yn 2007 gydag ailachrediad cyfredol ers hynny.

NEUADD Y DREF	
Disgrifiad o'r Maes Parcio Mae'r maes parcio hwn y tu cefn i swyddfeydd Stryt y Lampint gyda mynediad o Stryt Caer	
Nifer y lleoedd	67 gan gynnwys 4 anabl
Prisiau	0 - 1 awr – 60c 1 - 2 awr – £1.20
Nifer y Peiriannau Metric Aura	2
Gwyliadwriaeth TCC	Camera canol y dref yn Llwyn Isaf a chamerâu ar adeiladau y tu cefn i swyddfeydd Stryt y Lampint yn cadw gwyliadwriaeth
Gwybodaeth Ychwanegol	Maes parcio byr-aros yn unig (arhodiad hwyaf o 2 awr) Mae'r maes parcio'n breifat o ddydd Llun i ddydd Gwener ar gyfer staff, aelodau a'r BBC ac ar gael i'r cyhoedd ar Sadyrnau a Suliau'n unig
Gwobr Parcio Mwy Diogel ParkMark®	Achredwyd gyntaf yn 2007 gydag ailachrediad cyfredol ers hynny

STRYT Y FARCHNAD	
Disgrifiad o'r Maes Parcio Mae'r maes parcio ynghanol y dref yn union ar bwys adeilad amrylawr Marchnad y Bobl gyda mynediad o Stryt y Farchnad	
Nifer y lleoedd	73 gan gynnwys 9 anabl
Prisiau	0 - 1 awr – 60c 1 - 2 awr – £1.20
Nifer y Peiriannau Metric Aura	2
Gwyliadwriaeth TCC	Camera canol y dref ar adeilad amrylawr Marchnad y Bobl yn cadw gwyliadwriaeth
Special Circumstances	Maes parcio byr-aros yn unig (arhodiad hwyaf o 2 awr) Mae'r maes parcio'n rhoi mynediad i gefn amryw eiddo / busnesau ar Stryt Siarl a Stryt y Farchnad a'r gilfach lwytho a nodwyd ar gyfer busnesau yn Marchnad y Bobl Ardal benodol ar gyfer parcio beiciau modur
Gwobr Parcio Mwy Diogel ParkMark®	Achredwyd gyntaf yn 2007 gydag ailachrediad cyfredol ers hynny.

FFORDD RHOSDDU	
Disgrifiad o'r Maes Parcio Mae'r maes parcio hwn ynghanol y dref y tu cefn i'r Llyfrgell gyda mynediad o Ffordd Rhosddu. Mae ar gyfer defnydd deiliaid Bathodyn Glas yn unig.	
Nifer y lleoedd	8 anabl
Prisiau	Nid oes tâl am barcio yn y maes parcio hwn
Nifer y Peiriannau Metric Aura	Amherthnasol
Gwyliadwriaeth TCC	Camera canol y dref ar Ffordd Rhosddu'n cadw gwyliadwriaeth
Gwybodaeth Ychwanegol	Parcio ar gyfer pobl anabl yn unig
Gwobr Parcio Mwy Diogel ParkMark®	Heb ei achredu ar hyn o bryd

FFORDD Y CILGANT	
Disgrifiad o'r Maes Parcio Mae'r maes parcio ar gyrion canol y dref ar ben pellaf Ffordd y Cilgant ger Mecca Bingo	
Nifer y lleoedd	146
Prisiau	0 - 3 awr – £1.00 Dros 3 awr – £1.50
Nifer y Peiriannau Metric Aura	2
Gwyliadwriaeth TCC	Camera unswydd yn y maes parcio'n cadw gwyliadwriaeth.
Gwybodaeth Ychwanegol	Bolardiau awtomatig yn cyfyngu ar fynediad ar ôl 7.00pm
Gwobr Parcio Mwy Diogel ParkMark®	Achredwyd gyntaf yn 2004 gydag ailachrediad cyfredol ers hynny

Atodiad 2
Cosbau am Doriadau

Cosbau Uchaf am Dorri Rheolau Parcio

Cod	Cosb	Disgrifiad Cyfreithiol	Gwybodaeth
01	£70.00	Wedi parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod oriau penodedig	Parciwyd ar linellau melyn (sengl neu ddwbl) neu mewn parth cerddwyr
02	£70.00	Wedi parcio neu lwytho / dadlwytho mewn stryd gyfyngedig lle mae cyfyngiadau ar aros a llwytho / dadlwytho mewn grym	Wedi parcio lle mae llinellau melyn a marciau melyn ar ymyl y pafin
12	£70.00	Wedi parcio mewn man parcio trigolion neu fan parcio rhannu defnydd heb ddangos yn amlwg naill ai hawlen neu daleb ar gyfer y man hwnnw	Wedi parcio mewn parth trigolion
20	£70.00	Wedi parcio mewn bwlch llwytho a nodwyd gyda llinell felen	Llinell felen rhwng dau fan parcio
21	£70.00	Wedi parcio mewn cilfach / man parcio neu ran o gilfach / man parcio a waharddwyd	Lle / pryd y gwaharddwyd man parcio – bydd arwyddion yn nodi hynny
23	£70.00	Wedi parcio mewn man parcio neu ardal na ddynodwyd ar gyfer cerbyd o'r dosbarth hwnnw	Dim ond cerbydau arbennig sy'n cael parcio mewn rhai mannau – fel y manylir ar arwydd ger y man parcio
25	£70.00	Wedi parcio mewn man llwytho yn ystod oriau cyfyngedig heb fod yn llwytho	Mae mannau llwytho at ddiben llwytho a dadlwytho'n unig
26	£70.00	Wedi parcio cerbyd ymhellach na 50cm o ymyl y lôn gerbydau ac nid mewn man parcio dynodedig	Mae 'parcio dwbl' yn berthnasol hyd yn oed os nad oes cerbydau eraill a gall hefyd fod yn berthnasol os parciwyd cerbyd ar ongl / ar groes ac un pâr o olwynion yn fwy na 50cm o ymyl y lôn gerbydau
27	£70.00	Wedi parcio o flaen palmant isel	Wedi parcio'n rhannol neu'n llwyr gan rwystro cyrbau isel boed ar gyfer cerbydau neu gerddwyr
40	£70.00	Wedi parcio mewn man parcio penodol i bobl anabl heb ddangos bathodyn dilys rhywun anabl yn amlwg	Cilfachau'n benodol ar gyfer deiliaid bathodyn anabl yn unig
45	£70.00	Wedi parcio ar safle tacsis	Cilfachau penodol ar gyfer tacsis. Ni chaiff cerbydau eraill barcio, hyd yn oed i godi teithwyr
46	£70.00	Wedi stopio lle gwaharddwyd hynny (ar glirffordd)	Mae clirffordd yn gyfyngiad heb farciau ond arwyddion yn unig
47	£70.00	Wedi stopio ar safle bysiau cyfyngedig	Nid yw bysiau heb ganiatâd / cerbydau eraill ond yn cael gollwng neu godi teithwyr a rhaid iddynt beidio ag aros
48	£70.00	Wedi stopio mewn ardal gyfyngedig y tu allan i ysgol	Marciau igam-ogam melyn oddi allan neu gerllaw mynedfa i ysgol
49	£70.00	Wedi parcio'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar lwybr beicio neu lôn feicio	
55	£70.00	Cerbyd masnachol wedi parcio mewn stryd gyfyngedig yn groes i waharddiad ar aros dros nos	
61	£70.00	Cerbyd masnachol trwm wedi parcio'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar balmant, llain ymyl neu dir rhwng dwy lôn gerbydau	Rhaid bod dim rhan o gerbyd masnachol mawr ar y palmant ac ati
62	£70.00	Wedi parcio gydag un olwyn neu fwy ar unrhyw ran o ffordd drefol heblaw lôn gerbydau (parcio ar y palmant)	Ni ddylai unrhyw ran o gerbyd fod ar y palmant (oni bai fod arwyddion / marciau'n nodi fel arall)
81	£70.00	Wedi parcio mewn ardal dan gyfyngiadau mewn maes parcio	Heb barcio mewn amlwg cilfach
85	£70.00	Wedi parcio mewn cilfach hawlen heb ddangos hawlen ddilys yn amlwg	Wedi parcio mewn cilfach hawlen mewn maes parcio heb ddangos hawlen ddilys ar gyfer y fan honno / cerbyd hwnnw
87	£70.00	Wedi parcio mewn man parcio rhywun anabl heb ddangos bathodyn dilys rhywun anabl yn amlwg	Cilfachau penodol mewn maes parcio ar gyfer deiliaid bathodyn anabl yn unig

91	£70.00	Wedi parcio mewn maes parcio neu ardal na ddynodwyd ar gyfer cerbyd o'r dosbarth hwnnw	Er enghraifft: parcio mewn ardal a ddynodwyd ar gyfer coetsis / bysiau'n unig
99	£70.00	Wedi stopio ar groesfan gerddwyr a/neu ardal groesi a nodwyd gyda marciau igam-ogam	Croesfan gerddwyr a nodwyd gyda marciau igam-ogam gwyn

Cosbau Llai am Dorri Rheolau Parcio

Cod	Cosb	Disgrifiad Cyfreithiol	Gwybodaeth
05	£50.00	Wedi parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben	Ni ddylid parcio cerbydau ar ôl i'r tocyn / taleb talu a dangos ddod i ben
06	£50.00	Wedi parcio heb ddangos tocyn neu daleb talu a dangos dilys yn amlwg	Rhaid dangos tocynnau / talebau talu a dangos yn amlwg
07	£50.00	Wedi parcio trwy dalu i aros yn hwy na'r amser gwreiddiol	Nid oes modd prynu amser ychwanegol i ymestyn y tocyn talu a dangos a brynwyd eisoes neu dalebau a ddangoswyd eisoes
09	£50.00	Wedi parcio gan ddangos tocyn talu a dangos lluosog lle gwaharddwyd hynny	Mwy nag un tocyn talu a dangos yn y golwg
19	£50.00	Wedi parcio mewn man parcio trigolion neu fan parcio rhannu defnydd gan ddangos hawlen annilys neu daleb annilys	Hawlen ar ôl yr oes neu heb fod yn ddilys ar gyfer y parth hwnnw
22	£50.00	Wedi ailbarcio yn yr un man parcio cyn pen 2 awr ar ôl ymadael (neu amser penodedig arall)	Dim dychwelyd i'r un man parcio cyn pen cyfnod penodedig (yn ôl yr arwyddion)
24	£50.00	Heb barcio'n gywir o fewn marciau'r gilfach neu fan parcio	Rhaid i'r holl olwynion fod o fewn y man parcio
30	£50.00	Wedi parcio am gyfnod hwy nag oedd hawl gwneud	'Cilfachau Aros Cyfyngedig' – mae'r arwyddion yn dynodi hyd arhosiad
82	£50.00	Wedi parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben	Mewn maes parcio rhaid symud cerbyd cyn i'r tocyn talu a dangos ddod i ben
83	£50.00	Wedi parcio mewn maes parcio heb ddangos tocyn talu a dangos dilys yn amlwg	Rhaid dangos tocyn talu a dangos yn amlwg
86	£50.00	Wedi parcio y tu hwnt i farciau'r gilfach	Rhaid i holl olwynion y cerbyd fod o fewn marciau'r gilfach

	Diddymiad	Caiff Rhybudd Talu Cosb ei ddiddymu pan fydd y Cyngor yn credu na fyddai'n iawn parhau'r achos.
CEA	Ardal Gorfodi Sifil	Dyma'r ardal y mae'r gorfodi'n berthnasol iddi.
CEO	Swyddog Gorfodi Sifil	Dyma'r enw ar swyddogion oedd yn cael eu galw'n ofalwyr parcio o'r blaen.
	Her	Gwrthwynebiad yw hwn yn erbyn Rhybudd Talu Cosb cyn anfon Rhybudd i'r Perchennog.
CPE	Gorfodi Rheolau Parcio Sifil	Dyma'r enw ar orfodi rheoliadau parcio gan Swyddogion Gorfodi Sifil dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004.
	Toriad	Dyma pryd y bydd modurwr heb gydymffurfio â'r rheoliad traffig neu barcio mewn man arbennig.
	Dad-droseddoledig	Mae hyn yn golygu nad yw'n drosedd parcio'n groes i reoliadau parcio. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yn unig yn hytrach na'r Heddlu yw gorfodi'r rheoliadau mewn ardal barcio arbennig. Mae torri rheolau parcio'n dramgwydd sifil yn hytrach na throsedd. Caiff cosbau heb eu talu eu dilyn trwy asiantaethau casglu dyledion ac nid drwy'r llysoedd.
DfT	Yr Adran Drafnidiaeth	Dyma Adran y Llywodraeth sy'n gyfrifol am y rhwydwaith cludiant yn Lloegr a materion cludiant ar hyd a lled y DU sydd heb gael eu datganoli.
	Cosbau parcio gwahaniaethol	Dyma'r gwahanol daliadau gyda thoriadau uwch yn £70 a rhai is yn £50. Mae'r gwahanol daliadau'n adlewyrchu difrifoldeb y tramgwydd.
DVLA	Awdurdod Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau	
RhP	Rhybudd i'r Perchennog	Rhybudd statudol yw hwn sy'n cael ei roi gan yr awdurdod dyroddi i geidwad cofrestredig y cerbyd a gafodd y Rhybudd Talu Cosb. Bydd hwn yn cael ei roi pan na thalwyd y Gosb o fewn 28 diwrnod.
RhTC	Rhybudd Talu Cosb	Caiff hwn ei roi ar gerbyd y credwyd iddo gael

		ei barcio'n groes i'r gorchymyn rheoleiddio traffig lleol.
	Ceidwad Cofrestredig	Y sawl a gredir yw perchennog cyfrifol y cerbyd yn y gyfraith ac sy'n yn gyfrifol yn y gyfraith am dalu'r Gosb.
	Sylwadau	Dyma'r her yn erbyn y RhTC ar ôl rhoi Rhybudd i'r Perchennog.
RTA 1991	Deddf Traffig y Ffyrdd 1991	Dyma'r ddeddfwriaeth flaenorol yr oedd awdurdodau lleol yn gweithredu dani wrth gwblhau DPE.
TEC	Canolfan Gorfodi Rheolau Traffig	Canolfan brosesu dyledion gorfodi swmp yw Canolfan Gorfodi Rheolau Traffig (TEC) sy'n seiliedig yn Northampton. Mae'n broses cofrestru dyledion ar garlam.
TMA 2004	Deddf Rheoli Traffig 2004	Dyma'r deddfwriaeth y mae awdurdodau lleol yn gweithredu dani wrth gwblhau CPE.
TPT	Tribiwnlys Cosbau Traffig	Y Tribiwnlys Cosbau Traffig sy'n penderfynu apeliadau yn erbyn cosbau parcio a roddwyd gan Awdurdodau Gorfodi Sifil yng Nghymru a Lloegr (heblaw Llundain). Mae unrhyw benderfyniadau a wna'r TPT yn rhwymo'r Cyngor a phwy bynnag a wnaeth yr apêl.
TRO	Gorchymyn Rheoli Traffig	Dyma'r ddogfen gyfreithiol statudol angenrheidiol i gefnogi'r mesurau traffig neu briffyrdd gorfodadwy.
LIC	Llywodraeth Cymru	Llywodraeth ddatganolog Cymru yw hon.